Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



Astudiaeth achos

# Cael y Fro Ar-lein

Mae partneriaeth Cael y Fro Ar-lein yn dangos sut mae cydweithio rhwng sefydliadau lleol wedi helpu cymunedau ar draws Bro Morgannwg i gadw mewn cysylltiad – a sut y gallai'r dull hwn helpu sefydliadau eraill i gefnogi pobl i fynd ar-lein.

Wedi'i chreu saith mlynedd yn ôl, mae Cael y Fro Ar-lein (CYFA) yn bartneriaeth sy'n dod â sefydliadau lleol sydd â diddordeb mewn hyrwyddo cynhwysiant digidol yn y gymuned ynghyd. Mae'r partneriaid yn cynnwys Cymunedau Digidol Cymru, Cymdeithas Tai Newydd, Cartrefi'r Fro, Llyfrgelloedd y Fro, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, ac adrannau amrywiol o'r awdurdod lleol. Mae'r grŵp yn gweithio ar y cyd i ddod â sefydliadau o'r un anian ynghyd i hybu cynhwysiant digidol a chydnabod pwysigrwydd cefnogi pobl yn y Fro i sicrhau bod ganddynt y sgiliau digidol, yr hyder, a mynediad i fynd ar-lein. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod fod gweithio ar y cyd yn allweddol i lwyddiant.

## Mae Scott Tandy, Arweinydd Digidol Cymdeithas Tai Newydd ac aelod o CYFA, yn esbonio:

> "Rydym yn cyfuno ein gwybodaeth leol ac yn gweithio ar ddatrysiad gyda'n gilydd.
> Mae'n ymwneud â phrofi syniadau, gweld beth sy'n gweithio, ac adeiladu arno a'i ddatblygu ymhellach"

Mae gwahanol sefydliadau'n wynebu heriau gwahanol a phob un gyda arbenigedd gwahanol, ond yn rhannu'r un meddylfryd i hybu cynhwysiant digidol ac mae hyn wedi arwain at well cefnogaeth i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

**Ychwanegodd Scott:**

> Mae'n ymwneud â chael y gofod hwnnw i ganfod atebion, neu gyfeirio at y rhai sy'n gallu canfod datrysiad. Nid oes gan unrhyw un person neu sefydliad yr atebion i gyd, a thrwy ddod at ein gilydd gallwn gefnogi'n well y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn. Rydym yn tyfu cymuned o arweinwyr digidol, ac ni fyddai ein gwaith mor llwyddiannus heb gefnogaeth pob sefydliad.



Mae mynd i'r afael ag unigedd ac allgau digidol drwy gydol y pandemig wedi bod yn flaenoriaeth i CYFA; mae Cynllun Benthyca Llechi'r Fro, ble gall llyfrgelloedd ledled y Fro fenthyca tabledi â mynediad rhyngrwyd i unigolion yn y gymuned leol, yn arbennig o lwyddiannus, gan helpu i atal unigrwydd ac ynysigrwydd sydd wedi bod hyd yn oed yn fwy cyffredin yn ystod COVID-19.

Siaradodd Jo Beynon, Swyddog Polisi Cyngor Bro Morgannwg ac aelod o CYFA, am sut roedd y bartneriaeth wedi dod at ei gilydd yn ystod y pandemig i fynd i'r afael â'r galw am gymorth digidol a pham mae partneriaeth CYFA yn bwysig iddi:

> Mae Partneriaeth Cael y Fro Ar-lein yn strwythur allweddol a ddefnyddir gan sefydliadau amrywiol ar draws y Fro i gydweithio i fynd i'r afael gyda'r gwahanol agweddau o allgau digidol ar draws y Fro. Mae'r Bartneriaeth yn arf ardderchog ar gyfer caniatáu i aelodau traws-sector a thraws-sefydliadol rannu newyddion diweddaraf, ac yn gyfle i ddysgu a rhwydweithio. Mae'r pandemig wedi amlygu, yn awr yn fwy nag erioed, bwysigrwydd bod ar-lein a'r buddion a ddaw yn ei sgil.

> Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y gall fod heriau o ran canfod pa gymorth sydd ar gael, a gwelwyd fod angen i ddatblygu 'siop cynhwysiant digidol un stop' lle gallai preswylwyr a staff o bob sefydliad ddod o hyd i wybodaeth am 2 elfen allweddol: ble i gael dyfais, ac o ble i gael cymorth. Mae gwefan Cael y Fro Ar-lein wedi'i hailddatblygu'n ddiweddar i ddod yn ffynhonnell wybodaeth leol hanfodol, gan amlygu'r cymorth sydd ar gael ar draws y Bartneriaeth ynghyd ag unrhyw feini prawf cymhwyster.

Mae Cael y Fro Ar-lein yn gwerthfawrogi cydweithio ac yn gweithio gyda sawl Awdurdod Lleol gwahanol. Mae'r sefydliad yn deall pwysigrwydd cydweithio er mwyn cyrraedd nod cyffredin. Mae cydweithio i gyfleu'r neges wedi bod yn hollbwysig yn ystod argyfwng COVID-19, er mwyn cyd-dynnu fel cymuned i helpu'r rhai mewn angen.

Siaradodd Farida Aslam, Uwch Reolwr Cymdogaeth ar gyfer Cartrefi'r Fro, Cyngor Bro Morgannwg, ac aelod o CYFA, am bwysigrwydd gweithio ar y cyd, yn fewnol yn yr Awdurdod Lleol a chyda phartneriaethau fel CYFA:

> Mae partneriaeth CYFA yn enghraifft wych o gydweithio i gael yr effaith fwyaf posibl. Gyda hanes o gyflawniad gweithredol, yn ystod y cyfnod cyn y pandemig, roeddem yn dechrau cwestiynu sut y gallwn weithio mewn ffyrdd gwell i gael yr effaith fwyaf posibl. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar bwy y dylai ein partneriaid newydd fod, ond hefyd, fe wnaethom ganolbwyntio o ddifrif ar beth arall y gallem ni fel cyngor ei wneud. Buom yn cwestiynu'n fewnol a oedd adrannau o'r cyngor yn ymwybodol o'r gwaith yr oeddem yn ei wneud, ac felly dechreuasom godi'r proffil yn fewnol, ac rydym hefyd yn dod yn fwy deallus wrth geisio casglu'r effaith yr ydym yn ei chael ynghyd ond hefyd cysylltu'r elfennau yn fewnol. Er enghraifft, mae gennym bellach grŵp o reolwyr ar draws y cyngor sy'n dylanwadu ar y Strategaeth Aeddfedrwydd Digidol newydd ar gyfer y Fro, a gyda gwybodaeth grŵp digidol CYFA rydym yn gallu bwydo profiad gweithredol ymarferol i helpu i lywio cyfeiriad y gwaith at y dyfodol.

“Rydym hefyd yn gweithio tuag at arwyddo’r Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru a chyflawni’r achrediad, felly mae gennym ymrwymiad corfforaethol gwirioneddol, ac yn teimlo’n frwdfrydig am gamau nesaf ein taith ym maes cynhwysiant digidol yn y Fro.”



## Tri awgrym da gan Cael y Fro Ar-lein:

1. **Gweithiwch gyda’ch gilydd i ganfod atebion – mae gwahanol sefydliadau yn wynebu heriau gwahanol; os nad oes gennych yr ateb, efallai y bydd rhywun arall yn gallu helpu**
2. **Cofiwch y gall y byd digidol ddod â phobl at ei gilydd ar adegau anodd, boed hynny’n sefydliadau o’r un anian neu’r cymunedau yr ydych yn eu gwasanaethu**
3. **Rhowch dargedau bach ar waith a fydd yn helpu i sicrhau newid gwirioneddol yn y gymuned**

**Helpwch eich cymuned i ddysgu sgiliau digidol sy’n newid bywydau gyda’n hyfforddiant rhad ac am ddim.**

**I gymryd rhan, ewch i:**

digitalcommunities.gov.wales/cy/ 0300 111 5050 @DC_Wales